

Hiliaeth a Chymreictod

Jones, Dyfrig

O'r Pedwar Gwynt

Cyhoeddwyd: 30/11/2018

Fersiwn wedi'i hadolygu gan gymheiriaid

[Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication](#)

Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):
Jones, D. (2018). Hiliaeth a Chymreictod. *O'r Pedwar Gwynt*, (8), 29-33.
<https://pedwargwynt.cymru/adolygu/gol/hiliaeth-a-chymreictod>

Hawliau Cyffredinol / General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Prin fod unrhyw un yn ysgrifennu am hil yn America heddiw gyda'r un angerdd, yr un dyfeisgarwch, yr un graen a Ta-Nehisi Coates. Ef, yn ol Toni Morrison, yw etifedd James Baldwin, yr unig un sydd wedi gallu llenwi'r gwacter sydd wedi bodoli ers marwolaeth Baldwin, dros drideg o flynyddoedd yn ol. Craidd ei waith pwysicaf, *Between the World and Me*, yw llythyr wedi ei gyfeirio at ei fab, ond sydd yn cynnwys neges i America gyfan. Dyfais yw hon sydd wedi ei benthg yn uniongyrchol gan Baldwin; fel dyn hoyw mewn oes lle nad oedd dynion hoyw fel rheol yn dod yn dadau, doedd gan Baldwin ddim mab i ysgrifennu ato. Ond mae *My Dungeon Shook*, yr ysgrif cyntaf yn ei gyfrol *The Fire Next Time*, wedi ei ysgrifennu fel llythyr at ei nai, James. Yn yr ysgrif, sy'n cofnodi canmlwyddiant ers i Abraham Lincoln gyhoeddi bod holl gaethion yr Unol Daleithiau i gael eu rhyddhau, mae'r ewythr yn rhybuddio ei nai am y perygl sy'n wynebu bachgen du mewn byd gwyn. Byd yw hwn sydd heb newid yn sylfaenol ers canol y 19eg Ganrif, lle mae America wyn yn parhau i ddinistrio bywydau eu cyd-wladwyr du. Ond y drosedd fwyaf, meddai Baldwin, yw'r modd y mae America wyn yn anymwybodol o'r trais dyddiol yma, ac yn ymwrthod unrhyw ymgais i agor ei llygaid i'r trais:

"One can be, indeed one must strive to become, tough and philosophical concerning destruction and death, for this is what most of mankind has been best at since we have heard of man. (But remember: *most* of mankind is not *all* of mankind.) But it is not permissible that the authors of devastation should also be innocent. It is the innocence which constitutes the crime."

Hanner canrif a mwy yn ddiweddarach, mae Coates yn gorfod esbonio wrth ei fab cyn lleied sydd wedi newid ers 1962, ers 1862. Gwlad yw America Wen lle mae'r hen a'r ifanc - Eric Garner, Renisha McBride, John Crawford, Marlene Pinnock, Michael Brown - yn cael eu llofruddio yn rheolaidd gan y wladwriaeth, a hynny oherwydd lliw eu crwyn. Nid oes ystyr i'r lladd, yn ôl Coates. Mynegiant yw'r llofruddiaethau hyn o draddodiad a threftadaeth

America Wen: "The destroyers are merely men enforcing the whims of our country, correctly interpreting its heritage and legacy". Y trais hwn yw sylfaen y weriniaeth, gweriniaeth sydd ar lwybr syth tuag at dinistr. Er bod Coates yn anffyddiwr mae tinc Beiblaidd i'r epilog byr sydd yn cloi ei gyfrol, lle mae'n cymharu'r modd y mae America Wen yn rheibio'r corff du gyda'r modd y mae'n dinistrio'r ddaear drwy newid hinsawdd. Yr awgrym cynnil yw bod y drychineb ecolegol sydd ar y gorwel yn gosb o dudalennau'r Hen Destament.

Efallai mae'r gwahaniaeth pennaf rhwng Coates a Baldwin yw gobraith. Wrth gloi *My dungeon Shook*, mae Baldwin yn annog ei nai i drin Americanwyr gwyn fel brodyr - brodyr iau, colledig, yn erfyn am yr arweiniad moesol a fydd yn caniatáu iddyn nhw wireddu y freuddwyd fawr Americanaidd. Ymhen canrif arall, meddai Baldwin, efallai bydd modd i'r Unol Daleithiau ddathlu ei bod o'r diwedd wedi rhyddhau ei chaethion. Ond i Coates, mae America wyn ar goll yn y freuddwyd; byddai'n rhaid iddyn nhw ddeffro ohoni er mwyn wynebu hiliaeth, ac mae'r gwely yn un sy'n rhy glyd o lawer. Y freuddwyd, y twyll yma, yw craidd ei bodolaeth. Cred yw gwynder, ffordd o weld eich hun, a'r sawl yr ydych wedi cynghreirio a nhw dros ganrifoedd i greu'r freuddwyd. Heb yr hanes yma, does dim modd bod yn wyn.

Ond efallai bod llygedyn bach o obaith yng nghwaith Coates hefyd. Yng nghanol llif ei dudalennau agoriadol, mae Coates yn ein hatgoffa mai rhywbeth artiffisial yw gwynder. Dyma rhywbeth y mae pob plentyn yn ei sylweddoli pan mae'n dechrau dysgu sut i liwio llun - nid gwyn yw lliw gwirioneddol croen unrhyw un ohonom ni. Syniad ydi gwyn, ffordd o ddileu, o ddi-liwio ein hunaniaeth. Menig gwynion sydd yn ymestyn dros ein cyrff cyfan, gan ein cuddio rhag ein gorffennol

"These new people are, like us, a modern invention" meddai Coates wrth ei fab. "But unlike us, their new name has no real meaning divorced from the machinery of criminal power. The new people were something else before they were white - Catholic, Corsican, Welsh, Mennonite, Jewish - and if our national hopes have any fulfillment, then they will have to be something else again".

Ysgrifennu at ei fab y mae Simon Brooks hefyd yn ei gyfrol ddiweddaraf *Adra: Byw yn y Gorllewin Cymraeg*. Ac er mai Clwb Pêl-droed Porthmadog yw testun arwynebol ei lyfr, y mae yntau - fel Coates a Baldwin - yn defnyddio'r cyfle i gloriannu profiad hunaniaethol, i gynghori'r genhedlaeth iau, ac i atgoffa ei fab ifanc o'r dioddefaint sy'n rhan o'n hanes ninnau. Mewn pennod yn dwyn y teitl *Cestyll ein Concwerwyr* mae Brooks yn trafod taith y clwb pêl-droed i'r Fflint, i chwarae gem yng nghysgod y castell. "Cestyll ein concwerwyr ydi'r adeiladau pwysica yn ein gwlad am eu bod yn datgan yn blaen bod y Cymry wedi eu goresgyn", meddai.

Tra'n gwyllo'r gem, daw Osmond, Rastaffariad du, draw am sgwrs. Wrth drafod y berthynas rhwng criced a diwylliant du'r Caribî, mae meddwl Brooks yn troi at y cwestiwn o hil a Chymreictod. Caiff ei atgoffa o'i ieuencid yn Llundain, yn fab i Gymry ac yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf mewn dinas nad oedd yn cydnabod bodolaeth yr iaith. Yn ei ardegau, mae'n mynd i gyfarfod o ymgyrchwyr gwrth-hiliol, lle mae "Saesnes wen o Kilburn" yn dweud wrtho nad yw'n perthyn i leiafrif ethnig. "Roedd Prydeindod a Saesneg a gwynder wedi ein gwneud yn anweledig" meddai.

Sut felly mae deall y berthynas rhwng bod yn wyn a bod yn Gymro? A ydym ni, fel mae

Brooks yn ei honni, yn rhywbeth arall, yn rhywbeth mwy (neu lai) na gwyn? Ynteu a ydym ni wedi symud yn rhy bell oddi wrth ein gormes gwreiddiol i allu hawlio ein bod yn "arall"?

Yn ei gyfrol *How the Irish Became White*, mae Noel Ignatiev yn cynnig dadansoddiad o hanes y Gwyddelod yn America sydd yn dadlau eu bod, wrth fudo ar draws yr Iwerydd, wedi cofleidio yr America Wen er mwyn cael eu derbyn fel rhan o'r byd llewyrchus hwn. Wrth iddynt gyrraedd y cyfandir newydd, yn aml byddai'r Gwyddelod yn cyd-fyw ac Affro-Americanwyr. Yn ardal Moyamensing yn ninas Philadelphia yn ystod y 1850au roedd y ddau grŵp ethnig yn aml rhannu'r un tai - os y gellid eu galw'n dai - yn gwneud yr yn gwaith, yn rhannu celloedd yn y carchardai, ac yn cenhedlu a'u gilydd. Roedd y Gwyddelod a deithiodd draw rhwng 1845 ac 1855 yn perthyn i ddosbarth cymdeithasol is na'r sawl a ddaeth o'u blaenau. Tra bo'r sawl a fudodd draw yn hanner cyntaf y G19 yn aml yn meddu'r Saesneg, ac o gefndir ychydig yn fwy breintiedig, roedd y Gwyddelod a oedd yn ffoi y Newyn Mawr yng nghanol y ganrif yn dlotach, yn meddu ar lai o sgiliau, ac yn aml yn siarad Gwyddeleg yn unig. Mae Ignatiev yn honni bod rhai yn cellwair fod statws y Gwyddelod hyn islaw yr Affro-Americanwyr caeth, hyd yn oed: "'My master is a great tyrant' said a Negro, according to a popular quip of the day. 'He treats me as badly as if I was a *common Irishman*'."

Ond wrth i America nesáu tuag at Ryfel Cartref, a hwnnw yn ryfel wedi ei ysgogi gan ymlyniad y taleithiau deheuol at gaethwasanaeth, tyfodd statws y Gwyddelod ar draul yr Affro-Americanwyr. Gartref yn Nulyn, roedd cenedlaetholwyr Gwyddelig megis Daniel O'Connell yn ymgyrchu yn daer yn erbyn caethwasanaeth. Ond draw yn America, roedd y Gwyddelod yn heidio at y blaid Ddemocrataidd, amddiffynwyr y drefn. Meddai John Finch, un o ddilynwyr Robert Owen y Drenewydd, bod "the poorer class of Irish immigrants in America are greater enemies to the negro population, and greater advocates for the

continuance of negro slavery, than any portion of the population in the free states".

Nol yn 1790 roedd Cyngres gyntaf Unol Daleithiau America wedi penderfynu mai mewnfudwyr gwyn yn unig a fyddai'n gallu dyrchafu eu hunain yn ddinasyddion llawn. Wrth gyrraedd Ellis Island yn eu cannoedd o filoedd yng nghanol y ganrif, roedd y Gwyddelod yn rhywbeth llai na gwyn, yn arall. Ond wrth iddyn nhw efelychu ac atgynhyrchu'r patrymau o orthrwm a fodolai yn America yn barod, dysgasant sut i droi eu hunain yn wyn.

Roedd profiad y Cymry yn America yn bur wahanol. Yn ôl Ronald Lewis, awdur *Welsh America: A History of Assimilation in the Coalfields*, derbyniodd y sawl a fudodd o Gymry i America fwy o groeso o lawer na'r Gwyddelod. Yn rhannol am eu bod yn dod fel gweithwyr gyda sgiliau diwydiannol, ac yn rhannol oherwydd eu bod yn Brotestaniaid, derbyniwyd y Cymry yn gymharol rhwydd yn rhan o'r dosbarth gweithiol diwydiannol. Erbyn i'r tonnau o Wyddelod newynog ddechrau torri ar lannau America yng nghanol y ganrif, roedd llawer o'r Cymry eisoes yn rhan o'r America Wen.

Drwy drafod Coates a Baldwin, a Gwyddelod a fu'n fyw ar gyfandir arall dros ganrif a hanner yn ôl, mae perygl i mi greu'r argraff mae rhywbeth pellennig ac astrus yw'r drafodaeth hon o hil. I beth yr awn ni, y Cymry, i hollti blew ynglŷn a hyn? Onid yw'r mwyafrif llethol ohonon ni – 96% yn ôl cyfrifiad 2011 – yn llawn gydnabod ein bod ni'n wyn?

Mae hyn o bwys, yn rhannol, am ein bod ninnau yn hanesyddol wedi cael ein trin fel rhywbeth sydd yn llai na gwyn. Wrth sôn am yr hyn a yrrodd y Gwyddelod o'r lwerddon i

America, mae Ignatiev yn disgrifio'r deddfau gwrth-Gatholig a gwrth-Wyddelig a fodolai yn y 18fed a'r 19eg Ganrif. Gosodwyd rhwystrau llym ar eu gallu i ymwneud a bywyd cyhoeddus Iwerddon, i addoli ac i addysgu, ac i ddal swyddi neu i feddiannu tir. "The Penal Laws" meddai Igantiev "imposed upon them a caste status out of which no Catholic, no matter how wealthy, could escape".

Digon tebyg oedd ein hanes ni, ond mewn cyfnod cynt. Yn *Adra*, mae Simon Brooks yn disgrifio'r "drefn Apartheid" a fodolai yng Nghymru yn oes Edward I. Trefn a waharddodd ein iaith o'r byd cyhoeddus ac a nodweddwyd gan artaith, "glanhau ethnig, troseddau rhyfel ac yn wir troseddau yn erbyn dynoliaeth.....yr un mor ffaidd ac unrhyw beth sy'n digwydd ym Mhalesteina heddiw".

I rai yn ein plith, nid cwestiwn hanesyddol yn unig yw hwn. Gwyddom am ddigonedd o ffigyrau cyhoeddus sydd wedi ceisio diddanu drwy ddilorni'r Cymry a'r Gymraeg; Ann Robinson, AA Gill, Jeremy Clarkson, Rod Liddle, Eddie Jones, AN Wilson. Ychwanegwch at y rhestr rai cannoedd, miloedd efallai, sydd bellach wedi canfod llwyfan i'w rhagfarnau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hawdd deall pam fod y gwawd a'r rhagfarn yma yn cynddeiriogi cymaint o Gymry. Yn aml, mae'r hyn a deflir atom heddiw yn adlewyrchu stori ein gorffennol. Wrth graidd llawer o'r hyn a ddywedir mae'r syniad ohonom fel cenedl ddi-ddiwylliant, ynysig. Caiff y Gymraeg ei gweld fel rhwystr, fel mur rhyngom ni a'r byd modern, lobsgóws o lythrennau sy'n cael ei ddefnyddio i eithrio ymwelwyr a llesteirio addysg ein plant. Mae'r cyfrwng yn aml yn newydd, ond gwaed wedi ei wreiddio yn ein hanes, yn hanes ein gwladychu.

Ond wrth ymateb i'r sarhad, mae rhai Cymry yn eu tro yn llwyddo i sarhau eraill. Yn rhy aml o lawer, clywn y ddadl mai gwawdio'r Cymry yw'r "ffurf olaf o hiliaeth sydd yn parhau

yn dderbyniol". Drwy ddadlau hyn, rydym yn dangos ein anwybodaeth o natur hiliaeth, a'r modd y mae hiliaeth yn wahanol i ragfarn. Ond yn bwysicach, mae'r ddadl yma yn anwybyddu natur hiliaeth cyfoes, a'r modd y mae'n parhau i hagru bywydau cynifer o bobl, yng Nghymru fel yn America.

Fel y mae Reni Eddo-Lodge yn ei ddadlau yn ei chyfrol *Why I'm No Longer Talking to White People About Race*, beth yw hiliaeth, mewn gwirionedd, ond cyfuniad o ragfarn a grym. Mae rhagfarn yn beth cyffredin ym mywydau llawer ohonom ni. Disgrifia Eddo-Lodge ymweliad a thŷ bwyta Caribiaidd, lle mae'r perchennog yn cyfaddef iddo roi cig salach i'w gwsmeriaid gwyn, a chadw'r gorau i'w gwsmeriaid du. Gall rhagfarn fel hyn fod yn rhywbeth annymunol, meddai Eddo-Lodge, ond mae'n bur ddiniwed. Dim ond pan fo rhagfarn yn plethu gyda grym, grym sydd yn ymdreiddio i holl haenau cymdeithas mewn modd systemig, mae'n troi o ragfarn i hiliaeth.

Efallai mae'n hyn sydd wrth wraidd yr haerid ein bod ni, y Cymry, yn dioddef hiliaeth yw diffyg ymwybyddiaeth o brofiadau lleiafrifoedd ethnig eraill. Diffyg ymwybyddiaeth o'r modd y mae hil yn parhau i siapio bywyd llawer iawn o bobl, o'r crud i'r bedd. Diffyg dealltwriaeth o sut y mae Cymry du ac o dras Asiaidd yn gorfod bodloni ar dai rhent eilradd, mynediad at wasanaethau cyhoeddus o safon is, mynediad cyfyngedig i addysg uwch, llai o gyfleoedd yn y farchnad swyddi. Hyn oll, ac yna'r profiad o cyffredin, dyddiol o ragfarn a gwawd yr ydym ni'r Cymry yn gwyno amdano.

Gwn nad yw bywyd yn fel i gyd i'r Cymro gwyn. Gwn fod tlodi yn creithio cymaint o'n gwlad, a fod llawer o'n cymunedau yn dadfeilio o flaen ein llygaid. Gwn fod dyfodol yr iaith Gymraeg yn edrych yn gynyddol dywyll. Ond cwbl gyfeiliornus yw ceisio honni nad yw lliw ein croen yn rhoi rhyw gymaint o warchodaeth i ni yn erbyn y byd.

Dyw'r term "white privilege" ddim yn un sydd yn hawdd i'w gyfieithu. Dyw chwaith yn un y mae pawb yn ei gael yn hawdd ei ddeall. Sut mae modd edrych ar rai o'r trefi a phentrefi Cymreig lle mae tlodi ac amddifadedd yn rhemp, a chyhuddo trigolion y llefydd hynny o fod yn freintiedig? Onid yw hynny yn eu sarhau, yn tanseilio ei dioddefaint? Yr ateb yw bod braint yn beth cymharol. Ystyriwch, am eiliad, fywyd o fewn cymunedau tlotaf Cymru, cymunedau megis Parc Lansbury, yng Nghaerffili. Cymunedau yw'r rhain lle mae lefelau incwm a chyflogaeth gyda'r isaf trwy'r wlad, a safon y gwasanaethau addysg a iechyd gyda'r salaf. Mae'r gymuned gyfan yn ddi-freintiedig, heb os. Ond beth yw oblygiadau bod yn un o'r nifer fechan iawn o drigolion o leiafrif ethnig?

Yr hyn y mae pob tystiolaeth yn ei ddweud yw bod ethnigrwydd yn faich ychwanegol ar yr unigolion hyn. Maent yn gorfod wynebu yr un amodau economaidd, yr un amddifadedd cymdeithasol, yr un gwasanaethau cyhoeddus dadfeiliedig. Ond wrth gystadlu am yr ychydig gyfleoedd sy'n bodoli, mae'n rhaid iddyn nhw oresgyn yr holl rwystrau ychwanegol sy'n cael eu gosod ger bron lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Ein braint ni, fel Cymry gwyn, yw nad oes rhaid i ni wynebu'r rhwystrau ychwanegol hyn.

Oherwydd yn y pendraw, dyw ein Cymreictod ni ddim yn ein heithrio rhag bod yn wyn. Mae'r ffaith i ni ddioddef gormes ymerodraethol yn ein gorffennol yn ein gwarchod, rhyw ychydig, o fod yn gwbl glaerwyn. Drwy bwysleisio y ffyrdd yr ydym ni ychydig yn llai na gwyn, rydym yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel Cymry, ond hefyd yn herio y gwyn mawr gorychfygus; "bod yn rhywbeth arall eto", chwedl Coates, ydym ni drwy wthio'n ôl yn erbyn ein gwynder.

Serch hynny, rhaid i ni warchod rhag syrthio i mewn i'r freuddwyd. Ein anallu i gydnabod

ein braint yw un o'r rhesymau pam fod Eddo-Lodge wedi gorfod rhoi'r gorau i drafod hil gyda pobl wyn. Gallwn geisio ein hun, a dweud fod pwysleisio ein ethnigrwydd fel Cymry yn fodd o godi pontydd rhyngom ni a lleiafrifoedd eraill. Ond os nad ydym ni hefyd yn fodlon derbyn y ffyrdd yr ydym ni yn wahanol i leiafrifoedd eraill - y modd y mae ein croen yn darian yn erbyn y gwaethaf y mae'n rhaid iddyn nhw ei ddiodef - yna rydym yn gwneud cam a hwy, ac a ni ein hunain. Drwy wadu ein braint, rydym yn ceisio darbwylo eraill ein bod ni a'n tebyg yn ddi-euog o unrhyw drosedd. Ac fel yr ysgrifennodd Baldwin, drwy bleidio diniweidrwydd, rydym yn troseddu unwaith eto yn eu herbyn.